Adroddiad i'r:	**Cyngor Sir**
Dyddiad y cyfarfod:	**18 Mai 2021**
Awdur yr Adroddiad:	**Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu / Rhian Evans, Cydlynydd Craffu**
Cyflwynwyd gan:	**Y Cynghorydd Graham Timms (Cadeirydd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu)**
Teitl	**Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Craffu'r Cyngor 2020/21**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu i'r Cyngor ar gyfer 2020/21.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I gyflwyno adroddiad blynyddol y Pwyllgorau Craffu i'r Cyngor ar eu gweithgareddau yn ystod 2020/21.

2.2 I gydymffurfio ag Adran 7.4.4 o Gyfansoddiad y Cyngor sy'n nodi bod yn rhaid i bwyllgorau craffu adrodd am eu gwaith yn flynyddol i'r Cyngor llawn a gwneud argymhellion ar gyfer eu rhaglenni gwaith at y dyfodol a diwygio dulliau gweithio os yw hynny'n briodol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu ar gyfer 2020/21 ac yn rhoi sylwadau yn unol â hynny.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn gosod amod y bydd Pwyllgorau Craffu'r Awdurdod yn adrodd yn flynyddol ar eu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn i'r Cyngor Sir.

4.2 Mae Adroddiad Blynyddol eleni wedi'i atodi fel Atodiad 1. Mae'n rhoi cyflwyniad byr i'r darllenwr ynglŷn â beth yw craffu a sut mae craffu'n gweithredu, ochr yn ochr â throsolwg o'r gwaith y mae pwyllgorau a'u haelodau wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut y gall preswylwyr gyfranogi a chyfrannu at y broses graffu. Ar ôl cael cymeradwyaeth, caiff yr adroddiad ei gyfieithu a bydd ar gael ar wefan y Cyngor.

4.3 Mae'r adroddiad yn amlinellu rôl bwysig y Pwyllgor Craffu i gefnogi gwaith y Cyngor o ddarparu ei flaenoriaethau corfforaethol a'r Cynllun Corfforaethol, gan gynnwys monitro darpariaeth y Cynllun yn rheolaidd. Fel blynyddoedd blaenorol, yn ystod 2020/21 mae'r Pwyllgorau Craffu wedi cynnal cymysgedd o waith craffu cyn ac ar ôl gwneud penderfyniadau ac mae pwyllgorau unigol wedi canolbwyntio eu gwaith ar nifer o feysydd penodol, fel perfformiad corfforaethol, effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth wrth ddarparu gwasanaethau, a budd cymunedol ac economaidd.

4.4 Fodd bynnag, nid oedd 2020/21 yn flwyddyn arferol. O ganol mis Mawrth tan ganol mis Medi 2020, cafodd pob un o benderfyniadau'r Cyngor, heblaw am benderfyniadau brys, eu gohirio oherwydd pandemig COVID-19. Fel pwyllgorau eraill y Cyngor, nid oedd modd cynnal cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu i ymgymryd â busnes nes bod platfformau diogel wedi'u sefydlu i gynnal cyfarfodydd ar y rhyngrwyd.

4.5 Wrth i effeithiau'r pandemig dreiddio i mewn i bob agwedd ar fywyd bob dydd roedd gofyn i holl raglenni gwaith pwyllgorau craffu gael eu hadolygu i werthuso pa mor berthnasol ydynt yn Sir Ddinbych ar ôl y pandemig. I hwyluso hyn, dyfeisiodd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ffordd ymlaen a oedd yn cyfuno'r gwaith o archwilio cynlluniau adfer gwasanaethau'r Cyngor o ymateb i'r pandemig gyda blaenoriaethau'r pwyllgorau craffu cyn COVID. Mae'r adroddiad atodedig yn disgrifio sut yr ymgymerwyd â'r dasg hon a chanlyniadau hynny.

4.6 Teimlai'r Grŵp ei bod yn bwysig i bwyllgorau craffu ganolbwyntio ar archwilio cynlluniau adfer COVID-19 amrywiol yn ystod eu cyfarfodydd cyntaf, gan y byddai'r rhain yn ffurfio sylfaen i'r gwaith Craffu a'r meysydd blaenoriaeth wrth fynd ymlaen. Byddai dysgu gwersi o ymateb i'r pandemig yn allweddol er mwyn dyfeisio neu addasu polisïau a gwasanaethau a fyddai'n barod at y dyfodol. Gellir gweld manylion y blaenoriaethau adfer COVID-19 a archwiliwyd gan Craffu yn adran 'Craffu a phandemig COVID-19' yr adroddiad.

4.7 Unwaith yr oedd Craffu yn fodlon bod blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor yn dal i fod yn berthnasol am weddill cyfnod y Cyngor, parhaodd i fonitro perfformiad yr Awdurdod o ran cyflenwi'r blaenoriaethau hynny yn rheolaidd. Hefyd cafodd yr holl eitemau busnes perthnasol a oedd wedi'u rhestru ar raglenni gwaith i'r dyfodol y pwyllgorau cyn y pandemig eu hail-restru ar flaenraglenni gwaith i'r dyfodol y pwyllgorau. Gellir gweld manylion y pynciau a archwiliwyd hyd yma yn adrannau'r pwyllgorau unigol yn yr adroddiad. Bydd gweddill y meysydd pynciau yn cael eu harchwilio yn ystod blwyddyn olaf cyfnod y Cyngor.

4.8 Mae ymgysylltu â'r cyhoedd ac annog preswylwyr i ryngweithio gyda Chraffu wastad wedi bod yn heriol, ond dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd wedi codi. Er hynny, nid oedd yn syndod yn 2020/21 mai dim ond un cais a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd ar gyfer eitem i'w chraffu. Roedd y cais hwn yn ymwneud â Chynllun Teithio Llesol COVID-19 penodol yn un o drefi'r sir. Yn unol â'i ddull strategol o archwilio materion, penderfynodd y Grŵp ddefnyddio'r broses a ddilynir i ddatblygu a gweithredu cynlluniau fel hyn ledled y sir wrth graffu'r pwnc hwn.

4.9 Wrth i fywyd ddychwelyd yn araf i ryw fath o normalrwydd, mae'r Grŵp yn gobeithio y bydd nifer y ceisiadau am archwilio materion yn cynyddu. Gofynnir i bob cynghorydd sir dynnu sylw preswylwyr at y dull o ofyn i Craffu archwilio materion sy'n peri pryder iddyn nhw. Mae ffurflenni cais Craffu perthnasol i'w gweld yng nghefn yr Adroddiad Blynyddol atodedig neu ar wefan y Cyngor trwy ddilyn y ddolen hon: Public Scrutiny Request Form

4.10 Wrth ystyried cais i'w graffu, boed yn gais gan gynghorydd, swyddog neu aelod o'r cyhoedd, bydd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn defnyddio'r meini prawf canlynol i bennu a yw'r eitem yn haeddu cael ei chraffu:

- a yw'n fater o ddiddordeb i'r cyhoedd?
- oes gan Graffu'r gallu i ddylanwadu neu newid pethau?
- ydi'r gwaith yn gysylltiedig â gwasanaeth sy'n tanberfformio?
- ydi'r mater yn effeithio ar nifer fawr o breswylwyr neu ardal ddaearyddol fawr?
- oes unrhyw un arall yn edrych arno?

4.11 Yn ogystal â gwybodaeth am waith Pwyllgor Craffu Sir Ddinbych ei hun, mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu a sefydlwyd gan gynghorau Conwy a Sir Ddinbych i archwilio gwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych. Mae gwybodaeth yn yr adroddiad hefyd am waith y grwpiau gorchwyl a gorffen amrywiol a sefydlwyd gan y Pwyllgorau Craffu, gan gynnwys manylion y grwpiau gorchwyl a gorffen newydd a sefydlwyd tua diwedd blwyddyn 2020/21 y Cyngor.

4.12 Er gwaethaf y problemau a wynebwyd o ganlyniad i'r pandemig, llwyddodd Craffu i barhau'r arfer o wahodd sefydliadau partner i gwrdd ag aelodau o'r pwyllgor i archwilio sut y gellir gwella gwasanaethau a chanlyniadau i breswylwyr trwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Ymhlith y rhai a fynychodd yn ystod 2020/21, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Er nad oedd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn gallu derbyn y gwahoddiad i fynychu cyfarfod Pwyllgor Craffu i drafod cyllid Cynllun Teithio Llesol COVID-19, darparodd dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd roi blaenoriaeth i ymateb a rheoli sefyllfa iechyd y cyhoedd, felly bu'n rhaid ail-drefnu cyfarfodydd a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Bydd cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd yn mynychu cyfarfod Craffu yn gynnar ym mlwyddyn newydd y Cyngor ac yn rheolaidd am weddill cyfnod y Cyngor.

4.13 Disgwylir i Graffu ddangos canlyniadau ei waith. Yn gyffredinol nid yw hynny mor syml ag y mae'n ymddangos gan fod llawer o'r gwaith Craffu, yn enwedig gwaith cyn gwneud penderfyniadau, yn ffurfio rhan o'r darlun mawr o ran gwella polisïau a gwasanaethau i breswylwyr. Fodd bynnag, eleni mae'n braf gallu adrodd bod canlyniadau ymdrechion Craffu yn dilyn tân Mynydd Llantysilio yn 2018 wedi cael eu gwireddu. Un o'r argymhellion a darddodd o adolygiad Craffu i'r tân a'i effaith ar yr ardal oedd argymhelliad i greu swydd Swyddog Rheoli Rhostir. Penodwyd swyddog i'r swydd hon ar ddechrau 2021. Yn ogystal â chyflenwi'r amcanion a osodwyd allan yn yr adroddiad Craffu, bydd y swyddog hwn hefyd yn chwarae rôl bwysig i gefnogi

agweddau ar Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol y Cyngor. Dyma enghraifft glir o beth y gall craffu manwl ac effeithiol ei gyflawni a'r gwerth ychwanegol y gall ei ddarparu yn gorfforaethol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd craffu effeithiol yn gymorth i'r Cyngor gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol yn unol ag anghenion cymunedau a dymuniadau trigolion ac o fewn y gyllideb.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol yn rhan o'r gwaith rheolaidd o anfon adroddiadau pwyllgorau at gynghorwyr sir ac eraill, felly nid oes costau ychwanegol ynghlwm â'i gyhoeddi. Bydd yr Adroddiad Blynyddol, ar ôl ei gymeradwyo, ar gael ar fewnrwyd a gwefan y Cyngor.

6.2 Telir unrhyw gostau mewn perthynas â gwaith y grwpiau gorchwyl a gorffen o fewn y cyllidebau presennol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les gan nad yw'r adroddiad hwn yn ceisio unrhyw benderfyniad na newid i bolisi. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno er mwyn rhoi gwybod i gynghorwyr a thrigolion am waith y Pwyllgorau Craffu yn ystod y deuddeng mis blaenorol yn unig ac fel modd o amlinellu meysydd gwaith posib' yn y dyfodol.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Mae aelodau'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi bod yn ymwneud â drafftio'r Adroddiad Blynyddol ac ymgynghorwyd â nhw ar ei gynnwys.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Fel y nodwyd ym mharagraff 6 uchod, bydd unrhyw gostau sy'n berthnasol i gynhyrchu'r

Adroddiad yn cael ei gynnwys o fewn cyllidebau bresennol, fel y bydd unrhyw gostau sy'n codi wrth sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risgiau wedi'u canfod ynghlwm ag ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2 Adran 7.4.4 yng Nghyfansoddiad y Cyngor